Ymchwil Gymdeithasol Rhif: 110/2023

Dyddiad Cyhoeddi: 12/12/2023

# Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd, a Llesiant: Adroddiad Diweddaru 2023

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024 ISBN Digidol 978-1-83577-170-9

Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant: Adroddiad Diweddaru 2023

Awduron: Nia Bryer a Heledd Bebb, Ymchwil OB3

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Joshua Parry
Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

**Ebost:** ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru
ISBN: 978-1-83577-171-6
© Hawlfraint y Goron 2024

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2
2. Perfformiad a chyflawniadau CDC ........ 4
3. Casgliadau a materion i'w hystyried ........ 16

## Rhestr o'r tablau

Tabl 2.1: Perfformiad CDC Gorffennaf 2019 – Mawrth 2021 (21 mis) ........ 4
Tabl 2.2: Dangosyddion Perfformiad Allweddol ........ 5
Tabl 2.3: Canlyniadau'r Rhaglen ........ 6
Tabl 2.4: Perfformiad CDC Ebrill 2021 – Mehefin 2022 (15 mis) ........ 7
Tabl 2.5: Perfformiad CDC yn ystod Blwyddyn 4 (Gorffennaf 2022 – Mehefin 2023,12 mis) a pherfformiad cyffredinol hyd yma ar gyfer Blynyddoedd 4 i 6 (Gorffennaf 2022 – Mehefin 2025, 36 mis) ........ 9
Tabl 2.6: Cynnydd yn erbyn canlyniadau rhaglen CDC ........ 14

## 1. Cyflwyniad

1.1 Penodwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o raglen Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant (CDC). Mae CDC bellach yn rhaglen chwe blynedd, yn dilyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i fynd ar drywydd yr opsiwn i ymestyn y contract cyflawni tair blynedd gwreiddiol. Darperir y rhaglen gan Cwmpas, ar y cyd â'r Good Things Foundation a Phrifysgol Abertawe, i leihau allgau digidol a helpu i wella lefelau sgiliau digidol sylfaenol ledled Cymru.

1.2 Buddsoddodd Llywodraeth Cymru £6 miliwn o gyllid refeniw[1] yn y rhaglen dros gyfnod o dair blynedd rhwng 1 Gorffennaf 2019 a 31 Mehefin 2022 (y cam cyntaf, Blynyddoedd 1 i 3). Darparwyd cyllid refeniw ychwanegol o £6 miliwn am gyfnod pellach o dair blynedd rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 31 Mehefin 2025 (yr ail gam, Blynyddoedd 4 i 6).

1.3 Nodau'r gwerthusiad yw:

- adolygu a chrynhoi'r dystiolaeth bresennol ynghylch y berthynas rhwng cynhwysiant digidol ac iechyd
- adolygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ffordd y darparwyd y rhaglen
- asesu i ba raddau y mae nodau'r rhaglen wedi'u cyflawni a'r targedau wedi'u cyrraedd
- darparu tystiolaeth o ganlyniadau'r rhaglen i unigolion a'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio.

1.4 Mae'r gwerthusiad yn cael ei gynnal ar draws tri cham allweddol:

- roedd y cam cyntaf yn cynnwys paratoi gwerthusiad proses ac adroddiad damcaniaeth newid yn ystod 2020.[2]

[1] Mae cyllid refeniw yn wahanol i gyllid cyfalaf yn yr ystyr ei fod yn ariannu gweithgareddau tymor penodol neu dymor byr megis staff. Defnyddir cyllid cyfalaf i ariannu pryniannau y gellir eu defnyddio dros gyfnod mwy hirdymor megis cyfarpar.

[2] Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant | LLYW.CYMRU

- roedd yr ail gam yn cynnwys paratoi gwerthusiad interim o'r broses a'r canlyniadau yn ystod 2021[3]
- bydd y trydydd cam yn cynnwys paratoi gwerthusiad terfynol crynodol. Y bwriad gwreiddiol oedd i hyn gael ei gynnal yn 2022 ond bydd bellach yn cael ei gwblhau yn ystod 2025 i gyd-fynd â'r estyniad i'r rhaglen.

1.5 Bwriad yr adroddiad diweddaru byr hwn, sy'n cyfeirio at ddogfennaeth y rhaglen megis adroddiadau cynnydd, yw adolygu perfformiad y rhaglen yn erbyn y targedau hyd yma. Mae'n ystyried:

- perfformiad yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) yn ystod y cam cyflawni cyntaf (Blynyddoedd 1 i 3, Gorffennaf 2019 - Mehefin 2022)
- perfformiad cychwynnol mewn perthynas â'r DPA yn ystod yr ail gam (Blwyddyn 4, Gorffennaf 2022 - Mehefin 2023)
- y cynnydd yn erbyn canlyniadau'r rhaglen (Blynyddoedd 1 i 4, Gorffennaf 2019 - Mehefin 2023).

[3] Ibid.

## 2. Perfformiad a chyflawniadau CDC

**Perfformiad CDC yn erbyn y DPA - Blynyddoedd 1-3 (Gorffennaf 2019 - Mehefin 2022)**

2.1 Yn ystod cam cyntaf CDC a hyd ddiwedd mis Mawrth 2021, adroddodd y rhaglen yn erbyn naw DPA blynyddol. Daeth ein Gwerthusiad Interim o'r Broses a'r Canlyniadau i'r casgliad fod y rhaglen yn perfformio'n dda yn erbyn pedwar o'r rhain, gan ragori gryn dipyn ar ddau ohonynt. Roedd yn perfformio'n weddol dda yn erbyn tri DPA arall ond roedd yn tanberfformio'n sylweddol yn erbyn y ddau arall, a oedd yn ymwneud ag ymgysylltu â sefydliadau'r sector preifat a chefnogi staff iechyd a gofal.

**Tabl 2.1: Perfformiad CDC Gorffennaf 2019 – Mawrth 2021 (21 mis)**

| DPA | | Targed 3 blynedd (36 mis) | Cyflawnwyd (21 mis) | Cyflawnwyd (fel % o'r targed cyffredinol) |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Nifer y bobl a gafodd gymorth uniongyrchol drwy ymyriadau dwys | 15,000 | 12,597 | 84% |
| 2 | Pobl a gafodd gymorth anuniongyrchol drwy ymgysylltu â sefydliadau | 120,000 | 29,109 | 24% |
| 3 | Sefydliadau mawr yn y sector preifat yr ymgysylltwyd â nhw | 30 | 1 | 3% |
| 4 | Cyrff y trydydd sector a’r sector cyhoeddus yr ymgysylltwyd â nhw | 240 | 361 | 150% |
| 5 | Sefydliadau'r sector cyhoeddus yr ymgysylltwyd â nhw (gan gynnwys pob Bwrdd Iechyd ac Awdurdod Lleol) | 105 | 31 (10) | 30% |
| 6 | Gwirfoddolwyr Cynhwysiant Digidol a gafodd eu recriwtio a'u lleoli gan sefydliadau a gefnogir gan y rhaglen | 1,500 | 1,365 | 91% |
| 7 | Staff iechyd a gofal a gafodd gymorth i ddefnyddio technoleg er mwyn gwella canlyniadau iechyd | 15,000 | 1,394 | 9% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 8 | Cleifion a gafodd gymorth i ddefnyddio technoleg er mwyn gwella canlyniadau iechyd | 45,000 | 14,905 | 33% |
| 9 | Staff Rheng Flaen (heblaw am iechyd a gofal) a hyfforddwyd i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau i ddefnyddio technoleg | 1,500 | 1,529 | 201% |

Ffynhonnell: Adroddiadau chwarterol Rhaglen CDC

2.2 Mewn ymateb i argymhelliad a gynigiwyd yn ein hadroddiad Gwerthuso Proses a Damcaniaeth Newid[4], a awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru adolygu DPA y rhaglen a mabwysiadu nifer llai o allbynnau mwy realistig a chanlyniadau ansoddol a oedd yn adlewyrchu blaenoriaethau a darpariaethau'r rhaglen yn well, mabwysiadwyd pedwar DPA newydd (allbynnau) a phedwar canlyniad ar lefel rhaglen gan CDC o 1 Ebrill 2021 ymlaen[5], gan ddisodli'r naw dangosydd a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Mae'r allbynnau a'r canlyniadau newydd hyn wedi'u nodi yn Nhablau 2.2 a 2.3 isod.

**Tabl 2.2: Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

| Nifer | Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
|---|---|
| 1 | Pobl yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus (cymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a hyder) |
| 2 | Gwirfoddolwyr yn darparu cymorth i ddinasyddion |
| 3 | Cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod yn strategol[6] a'i ymgorffori ym mhrosesau cyflawni sefydliadau |
| 4 | Staff iechyd a gofal, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus |

[4] Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant | LLYW.CYMRU

[5] Mabwysiadwyd tri chanlyniad newydd yn wreiddiol, gyda'r pedwerydd (Canlyniad 3 yn Nhabl 2.3) wedi'i ychwanegu ym mis Gorffennaf 2022

[6] Cafodd y DPA hwn ei ddiwygio ychydig ym mis Medi 2023 (yn ystod Blwyddyn 4) yn dilyn trafodaeth rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a thîm cyflawni CDC. Geiriad y DPA gwreiddiol oedd 'cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod a'i ymgorffori o fewn strategaeth y sefydliad a'r broses gyflawni'.

**Tabl 2.3: Canlyniadau'r Rhaglen**

| Nifer | Canlyniadau'r Rhaglen |
|---|---|
| 1 | Pobl yn meddu ar ddigon o sgiliau digidol sylfaenol a hyder i allu ymgysylltu’n ddigidol (a chyda gwasanaethau digidol) yn eu bywydau beunyddiol a’u bywydau gwaith |
| 2 | Mwy o bobl yn defnyddio technoleg i reoli eu hiechyd (corfforol a meddyliol) a'u llesiant yn annibynnol |
| 3 | Y cynnydd mewn cynhwysiant digidol yn cael ei ymgorffori mewn strategaeth a darpariaeth sefydliadol |
| 4 | Gwell dealltwriaeth o’r defnydd o wasanaethau ac offer iechyd digidol drwy brosiectau ymchwil ar gyfer carfannau penodol a gwaith mapio hydredol |

2.3 Ystyriwyd perfformiad cychwynnol y rhaglen yn erbyn y targedau hyn dros gyfnod o chwe mis rhwng mis Ebrill a mis Medi 2021 fel rhan o'r gwerthusiad interim o'r broses a'r canlyniadau. Canfuwyd bod perfformiad y rhaglen ar y trywydd cywir neu'n rhagori ar y targedau ar gyfer tri o'i DPA. Roedd ychydig ar ei hôl hi o ran ei pherfformiad ar gyfer DPA 3 (Cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod a’i ymgorffori o fewn strategaeth y sefydliad a'r broses gyflawni) er ei bod yn ymddangos bod CDC wedi ymgysylltu â nifer digonol o sefydliadau i ganiatáu i’r targed hwn gael ei gyflawni o fewn y cyfnod cyflawni.

2.4 Mae Tabl 2.4 yn nodi perfformiad y rhaglen yn erbyn y pedwar DPA ar gyfer y cyfnod cyflawni 15 mis rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mehefin 2022. Mae'n dangos bod CDC wedi rhagori ar ei darged ar gyfer DPA 1 (Pobl yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus) ond, er bod cynnydd da wedi'i wneud yn erbyn y tri arall, ni wnaeth y rhaglen eu cyflawni'n llawn.

**Tabl 2.4: Perfformiad CDC Ebrill 2021 – Mehefin 2022 (15 mis)**

| DPA | | Targed | Cyflawnwyd | Cyflawnwyd fel % |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Pobl yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus (cymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a hyder) | 32,500 | 40,610 | 125% |
| 2 | Gwirfoddolwyr yn darparu cymorth i ddinasyddion | 1,250 | 861 | 69% |
| 3 | Cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod a'i ymgorffori o fewn strategaeth y sefydliad a'r broses gyflawni<br>a.) Sector Preifat<br>b.) Awdurdodau Lleol<br>c.) Byrddau Iechyd (Cynlluniau Tymor Canolig Integredig)<br>d.) Trydydd Sector a'r Sector Cyhoeddus<br>Cyfanswm | *2*<br>*10*<br>*3*<br>*20*<br>35 | *0*<br>*10*<br>*6*<br>*6*<br>22 | *0%*<br>*100%*<br>*200%*<br>*30%*<br>63% |
| 4 | Staff iechyd a gofal, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus | 1,750 | 1,291 | 74% |

Ffynhonnell: Adroddiadau chwarterol Rhaglen CDC

**Perfformiad CDC yn erbyn y DPA - Blwyddyn 4 (Gorffennaf 2019 - Mehefin 2022)**

2.5 Ar gyfer ail gam y cyllid (Blynyddoedd 4 i 6, Gorffennaf 2022 - Mehefin 2025), gosodwyd targedau blynyddol ar gyfer pob DPA. Mae Tabl 2.5 yn nodi cyflawniadau CDC yn ystod Blwyddyn 4 (Gorffennaf 2022 - Mehefin 2023). Mae'n dangos bod y rhaglen wedi gwneud cynnydd rhagorol, gan ragori gryn dipyn ar ei thargedau blynyddol ar gyfer DPA 1 (Pobl yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus) a DPA 4 (staff iechyd a gofal, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus) ac mae'n gwneud cynnydd da yn erbyn ei tharged tair blynedd ar gyfer DPA 3 (Cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod yn strategol a'i ymgorffori ym mhrosesau cyflawni sefydliadau) (h.y., nid oes unrhyw dargedau blynyddol ar gyfer DPA 3).

2.6 Mae perfformiad yn erbyn DPA 2 (Gwirfoddolwyr yn darparu cymorth i ddinasyddion) wedi bod braidd yn siomedig ar gyfer y cyfnod hwn, gyda CDC ond wedi cyflawni dwy ran o dair o'i tharged blynyddol yn ystod Blwyddyn 4 (Gorffennaf 2022 – Mehefin 2023) i ymgysylltu â gwirfoddolwyr er mwyn darparu cymorth i ddinasyddion, gan adleisio profiad blaenorol y rhaglen yn ystod y cam cyflawni cyntaf. Mae hefyd yn nodedig, er bod cynnydd da yn cael ei wneud yn gyffredinol yn erbyn DPA 3 (Cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod yn strategol ac wedi'i ymgorffori ym mhrosesau cyflawni sefydliadau), nid oes unrhyw sefydliadau'r sector preifat wedi'u cofnodi hyd yma yn erbyn y dangosydd hwn.

**Tabl 2.5: Perfformiad CDC yn ystod Blwyddyn 4 (Gorffennaf 2022 – Mehefin 2023,12 mis) a pherfformiad cyffredinol hyd yma ar gyfer Blynyddoedd 4 i 6 (Gorffennaf 2022 – Mehefin 2025, 36 mis)**

| DPA | | Blwyddyn 4 (Gorffennaf 22 - Mehefin 23) | | | Blynyddoedd 4 - 6 (Gorffennaf 22 - Mehefin 25) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Cyflawn-wyd | Cyflawn-wyd fel % | Targed | Cyflawnwyd hyd yma[7] fel % |
| 1 | Pobl yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus (cymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a hyder) | 34,000 | 41,780 | 128% | 102,000 | 41% |
| 2 | Gwirfoddolwyr yn darparu cymorth i ddinasyddion | 1,000 | 623 | 62% | 3,000 | 21% |
| 3 | Cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod yn strategol a'i ymgorffori ym mhrosesau cyflawni sefydliadau.<br>a.) Sector Preifat<br>b.) Awdurdodau Lleol<br>c.) Byrddau Iechyd (Cynlluniau Tymor Canolig Integredig)<br>d.) Trydydd Sector a'r Sector Cyhoeddus<br>Cyfanswm | Ddim yn berthnasol | *0*<br>*4*<br>*4*<br>*16*<br>24 | Ddim yn berthnasol | *10*<br>*12*<br>*9*<br>*24*<br>55 | *0%*<br>*33%*<br>*44%*<br>*67%*<br>44% |
| 4 | Staff iechyd a gofal, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus | 1,350 | 1,877 | 139% | 4,050 | 46% |

Ffynhonnell: Adroddiadau chwarterol Rhaglen CDC

**Trafod cyflawniadau DPA – Blynyddoedd 1 i 4 (Gorffennaf 2019 – Mehefin 2023)**

2.7 Trown yn awr i ystyried rhai o'r materion allweddol ar gyfer y DPA hyn:

*DPA 1: Pobl yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus*

[7] Allbynnau a gyflawnwyd rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mehefin 2023 yn erbyn y targed tair blynedd cyffredinol rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mehefin 2025.

2.8 Cefnogodd CDC 41,780 o bobl i ddod yn fwy digidol hyderus rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mehefin 2023, gan ddod â chyfanswm yr allbynnau yn erbyn y DPA hwn ers mis Ebrill 2021 i 82,390 (sy'n rhagori ar y targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru mewn trafodaeth â'r contractiwr, sef 66,500). Mae adroddiadau chwarterol Blwyddyn 4 (Gorffennaf 2022 – Mehefin 2023) yn nodi bod y rhan fwyaf o'r allbynnau hyn wedi'u cyflawni oherwydd i gyfranogwyr gael eu cefnogi'n anuniongyrchol drwy Gynlluniau Ymgynghori Digidol[8] a chael cefnogaeth anuniongyrchol drwy hyfforddiant.

*DPA 2: Gwirfoddolwyr yn darparu cymorth i ddinasyddion*

2.9 Defnyddiodd CDC 623 o wirfoddolwyr i ddarparu cymorth rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mehefin 2023, gan ddod â chyfanswm yr allbynnau yn erbyn y DPA hwn ers mis Ebrill 2021 i 1,484 (yn erbyn targed o 2,250). Yn ystod Blwyddyn 4 y rhaglen (Mehefin 2019 i Fehefin 2023), y brif ffynhonnell ar gyfer cyflawni'r allbynnau hyn oedd drwy'r ffrwd waith Arwyr Digidol[9] (a oedd yn cyfrif am 267 o blith y 623 o wirfoddolwyr a recriwtiwyd y flwyddyn honno) ac yna ffrwd waith yr Hyrwyddwyr Digidol[10] (134 o wirfoddolwyr).

2.10 Mae llawer o'r tanberfformiad yn erbyn DPA 2 i'w briodol i effaith barhaus y pandemig, gan nad yw niferoedd y gwirfoddolwyr wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig fel sydd wedi digwydd ar gyfer ymyriadau tebyg eraill sy'n dibynnu ar fewnbwn gwirfoddolwyr. Deellir bod CDC yn ymchwilio i syniadau a dulliau newydd o recriwtio gwirfoddolwyr, gan gynnwys y defnydd o wirfoddolwyr digidol, a allai helpu i gynyddu'r gwirfoddolwyr a gaiff ei recriwtio ar gyfer y cyfnod cyflawni sy'n weddill. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r targedau blynyddol presennol a osodwyd ar gyfer Blynyddoedd 5 a 6 yn ymddangos yn afrealistig ac efallai y byddai'n werth

[8] Mae Cynlluniau Ymgynghori Digidol yn cael eu datblygu ar gyfer sefydliadau sy'n ymgysylltu â'r rhaglen CDC, gan nodi sut y bydd sefydliadau'n cefnogi eu defnyddwyr/aelodau i ddod yn fwy digidol hyderus.

[9] Plant a phobl ifanc sy'n gallu defnyddio technoleg yn hyderus, ac sy'n defnyddio eu sgiliau i helpu eraill gyda thechnoleg ddigidol yw Arwyr Digidol. Gweler: Arwyr Digidol (llyw.cymru)

[10] Mae CDC yn darparu hyfforddiant i wirfoddolwyr a staff rheng flaen i ddod yn Hyrwyddwyr Digidol yn eu sefydliad, fel y gallant gefnogi unigolion yn well i ymgysylltu â chynhwysiant digidol.

eu lleihau dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill er mwyn adlewyrchu'r newid yn y maes gwirfoddoli ar ôl y pandemig.

*DPA 3: Cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod yn strategol a'i ymgorffori ym mhrosesau cyflawni sefydliadau*

2.11 Mae adroddiad chwarterol diweddaraf CDC (Ebrill i Fehefin 2023) yn nodi bod y rhaglen wedi ymgysylltu â chyfanswm o 1,985 o sefydliadau, ac o blith y rhain, roedd 736 wedi cael Cynllun Ymgynghori Digidol. At hynny, roedd 46 o sefydliadau wedi cael cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn rhan annatod o strategaeth a darpariaeth y sefydliad. Yn ddefnyddiol ddigon, mae'r adroddiadau chwarterol yn nodi nifer y cleientiaid sy'n cael eu hawlio yn ystod pob cyfnod adrodd ac yn darparu tystiolaeth bellach bod gwaith parhaus sylweddol yn cael ei wneud gyda'r sefydliadau hyn.

2.12 Mae'r anawsterau parhaus a wynebir gan CDC i ymgysylltu â sefydliadau'r sector preifat yn ystod ei bedair blynedd gyntaf yn codi cwestiwn pwysig ynghylch priodoldeb y targed hwn, a gallu'r rhaglen yn fwy cyffredinol i ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflogwyr y sector preifat. Ers 2019, dim ond ymgysylltiad ag un sefydliad o'r sector preifat y mae CDC wedi gallu adrodd arno, ac nid yw adroddiadau cynnydd yn rhoi unrhyw hyder y bydd y targed o 10 yn cael ei gyrraedd (h.y., nid yw adroddiadau chwarterol yn rhoi unrhyw fanylion am gwmnïau'r sector preifat sydd yn yr arfaeth neu gynlluniau penodol i dargedu'r sector hwn). Yn ehangach dros y flwyddyn ddiwethaf, mae CDC wedi bod yn mabwysiadu dull mwy strategol o weithio gyda'r sector preifat ac wedi comisiynu ymchwil annibynnol[11] fel sail i becyn cymorth yn ymwneud â thechnoleg ddigidol y gallai fod ei angen ar fusnesau bach yn y dyfodol. Er na ddisgwylir y bydd CDC yn cymryd y cyfrifoldeb llawn am ddarparu'r cymorth hwn, bydd, serch hynny, yn bwysig i'r rhaglen ystyried y canfyddiadau er mwyn bod yn sail i'w chynnig i'r sector preifat. O ystyried bod llai na dwy flynedd ar ôl i'r rhaglen gyrraedd y targed hwn, mae achos cryf i CDC ddatblygu cynllun gweithredu, gan gyfeirio at ganfyddiadau'r ymchwil, i amlinellu sut y mae'n bwriadu cyrraedd targed y rhaglen ar gyfer sefydliadau'r sector preifat. O ystyried bod y rhaglen yn

[11] Allgáu Digidol ymysg Busnesau Bach (llyw.cymru)

perfformio'n dda yn erbyn ei DPA eraill, mae achos cryf hefyd i CDC ddargyfeirio adnoddau i ganolbwyntio ar y maes cyflawni hwn am y cyfnod sy'n weddill.

*DPA 4: Staff iechyd a gofal, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus*

2.13 Cefnogodd CDC 1,877 o bobl i ddod ddigidol hyderus yn ystod Blwyddyn 4 (Gorffennaf 2022 - Mehefin 2023), gan ddod â chyfanswm yr allbynnau yn erbyn y DPA hwn ers mis Ebrill 2021 i 3,268 (sy'n rhagori ar y targed o 3,100). Mae adroddiadau chwarterol ar gyfer Blwyddyn 4 yn dangos bod 29 y cant (544 o blith y 1,877) o staff a gefnogwyd i ddod yn ddigidol hyderus yn dod o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol tra bod 71 y cant (1,333) yn dod o sectorau eraill. Byddai'n rhesymol disgwyl bod cyfran uwch o'r staff sy'n cael eu cefnogi gan CDC yn dod o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, o ystyried amcan cyffredinol y rhaglen i gefnogi'r sector hwn. Efallai y byddai'n werth cyflwyno targed sylfaenol blynyddol cyfrannol neu absoliwt ar gyfer y rhai sy'n cael eu hyfforddi o'r sector iechyd a gofal, a bod hwn yn cael adnoddau priodol gan dîm cyflawni'r rhaglen ar gyfer y ddwy flynedd sy'n weddill er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n cael eu cefnogi.

2.14 Cyflwynwyd yr hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb, gyda'r rhan fwyaf o gyfranogiad yn digwydd ar-lein yn ystod Blwyddyn 4 (Mehefin 2022 – Mehefin 2023).

**Cynnydd yn erbyn canlyniadau'r rhaglen - Blynyddoedd 1 i 4 (Gorffennaf 2019 - Mehefin 2023)**

2.15 Adroddodd ein gwerthusiad interim o'r broses a'r canlyniadau ar adborth cychwynnol (dros gyfnod o chwe mis) a gasglwyd gan sefydliadau ac unigolion a hyfforddwyd, fel ffordd o fesur p'un a gyflawnwyd tri chanlyniad y rhaglen (ar y pryd). Yn ein hadroddiad, o blith y 95 o unigolion a hyfforddwyd a roddodd adborth, nodwyd y canlynol:

- roedd 83 y cant yn fwy hyderus i rannu eu sgiliau digidol ag eraill

- roedd gan 82 y cant fwy o gymhelliant i ddefnyddio technoleg yn eu bywydau bob dydd
- dywedodd 80 y cant fod eu sgiliau digidol wedi gwella
- roedd 75 y cant yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio technoleg yn rheolaidd
- roedd gan 55 y cant ddealltwriaeth well o sut i ddefnyddio technoleg i wella a rheoli eu hiechyd.

2.16 O ran sefydliadau a gefnogwyd, nododd yr adroddiad y canlynol hefyd:

- dywedodd 100 y cant o'r sefydliadau a gymerodd ran yn yr arolwg fod cymorth gan CDC wedi eu helpu i weithio tuag at eu nodau cynhwysiant digidol
- roedd 61 y cant o'r sefydliadau'n ymwybodol o'r Strategaeth Ddigidol i Gymru
- cafodd 48 y cant o sefydliadau hyfforddiant i'r staff gan hyfforddwyr CDC
- datblygodd 35 y cant o sefydliadau bartneriaethau digidol gyda sefydliadau eraill o ganlyniad i CDC.

2.17 Yn gyffredinol, bu gwelliant yn y canlyniadau a adroddwyd o gymharu â'r rhai a gasglwyd ac a adroddwyd yn y cyfnod interim. Mae dadansoddiad o'r data sydd yn adroddiadau chwarterol Blwyddyn 4 (Gorffennaf 2022 - Mehefin 2023), sy'n seiliedig ar adborth o arolwg a gasglwyd gan CDC gan 309 o gyfranogwyr a 48 o sefydliadau[12], i'w weld yn Nhabl 2.6. Dengys y data fod mwyafrif llethol y cyfranogwyr a gafodd hyfforddiant yn adrodd am ganlyniadau gwell o ganlyniad i gymryd rhan yn CDC. Mae data arolwg a gasglwyd gan CDC ar gyfer sefydliadau a gefnogwyd yn dangos darlun ychydig yn fwy cymysg, ond mae'r canlyniadau'n well o'u gymharu â'r gwerthusiad interim.

[12] Darperir data canlyniadau ar gyfer sefydliadau mewn tri adroddiad chwarterol ar draws Blwyddyn 4. Mae'r data wedi'u cyfuno ar gyfer tri chwestiwn arolwg yr adroddwyd arnynt yn y tri adroddiad chwarterol hyn.

2.18 Mae'n werth nodi mai dim ond rhan o'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos a yw CDC yn cyflawni canlyniadau'r rhaglen sydd yn y data a nodir yn Nhabl 2.6, a bydd yn bwysig ystyried y dystiolaeth sylfaenol a gesglir fel rhan o waith maes ein gwerthusiad terfynol i asesu i ba raddau y mae'r rhain wedi'u cyflawni.

**Tabl 2.6: Cynnydd yn erbyn canlyniadau rhaglen CDC**

| | |
|---|---|
| **Canlyniad 1: Pobl yn meddu ar ddigon o sgiliau digidol sylfaenol a hyder i allu ymgysylltu'n ddigidol (a chyda gwasanaethau digidol) yn eu bywydau beunyddiol a'u bywydau gwaith** | • Dywedodd 80 y cant fod eu sgiliau digidol wedi gwella.<br>• Roedd 92 y cant yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio technoleg yn rheolaidd.<br>• Dywedodd 98 y cant eu bod yn gwybod sut i aros yn ddiogel ar-lein.<br>• Mae 91 y cant yn teimlo eu bod wedi'u hysgogi i ddefnyddio technoleg yn eu bywydau bob dydd.<br>• Roedd 83 y cant yn fwy hyderus i rannu eu sgiliau digidol ag eraill. |
| **Canlyniad 2: Mwy o bobl yn defnyddio technoleg i reoli eu hiechyd (corfforol a meddyliol) a'u llesiant yn annibynnol** | • Mae 79 y cant yn deall yn well sut i ddefnyddio technoleg i wella a rheoli eu hiechyd.<br>• Mae gan 88 y cant y sgiliau a'r hyder i wneud yr holl bethau y maent am eu gwneud gyda thechnoleg. |
| **Canlyniad 3: Y cynnydd mewn cynhwysiant digidol yn cael ei ymgorffori mewn strategaeth a darpariaeth sefydliadol** | • Dywedodd 90 y cant o'r sefydliadau (43 o blith 48) fod y cymorth wedi eu helpu i weithio tuag at eu nodau cynhwysiant digidol.<br>• Datblygodd 62 y cant o sefydliadau (30 o blith 48) bartneriaeth ddigidol gyda sefydliadau eraill o ganlyniad i CDC.<br>• Roedd 50 y cant o'r sefydliadau (24 o blith 48) yn ymwybodol o'r Strategaeth Ddigidol i Gymru. |

| | |
|---|---|
| **Canlyniad 4: Gwell dealltwriaeth o'r defnydd o wasanaethau ac offer iechyd digidol drwy brosiectau ymchwil ar gyfer carfannau penodol a gwaith mapio hydredol** | • Nid oes unrhyw fetrigau penodol yn cael eu hadrodd yn yr adroddiadau chwarterol yn erbyn y canlyniad hwn, ond mae gwaith ar y gweill i gefnogi datblygu ap GIG Cymru. Bydd angen casglu tystiolaeth yn ymwneud â'r canlyniad hwn fel rhan o waith maes y gwerthusiad terfynol. |

Ffynhonnell: Adroddiadau chwarterol rhaglen CDC Blwyddyn 4 (Gorffennaf 2022 – Mehefin 2023) (309 o gyfranogwyr a 48 o sefydliadau)

2.21 Mae'n werth nodi bod CDC wedi bod yn casglu adborth gan gyfranogwyr yn gyson i helpu i ddangos i ba raddau y mae'r ddau ganlyniad cyntaf yn cael eu cyflawni a byddai'r metrigau a nodir uchod ar gyfer Blwyddyn 4 (Gorffennaf 2022 - Mehefin 2023) yn awgrymu bod maint y sampl yn ddigonol i ddarparu data cadarn.

2.22 Mae'r metrigau a ddefnyddiwyd i ddangos tystiolaeth o'r canlyniadau ar gyfer sefydliadau wedi amrywio o un adroddiad chwarterol i'r llall, ac mae hyn, ynghyd â'r diffyg data ar gyfer chwarter 3 Blwyddyn 4 (Gorffennaf 2022 – Mehefin 2023), yn cyfyngu ar y dadansoddiad. Byddai'n werth bod yn fwy cyson yn y data arolwg o ganlyniadau chwarterol a adroddir ar gyfer sefydliadau ar gyfer y cyfnod cyflawni sy'n weddill a chysoni adborth yr arolwg yn well â chanlyniadau 3 a 4.

## 3. Casgliadau a materion i'w hystyried

3.1 Mae CDC yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn ei DPA blynyddol ac mae'n perfformio'n eithriadol o dda yn erbyn dau o'i bedwar targed (DPA 1 a DPA 4) sydd ill dau yn canolbwyntio ar gefnogi pobl i ddod yn ddigidol hyderus. Byddai'n fuddiol pennu cyfran neu nifer ofynnol o staff sy'n cael eu cefnogi o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o DPA 4, er mwyn cynyddu eu cyfranogiad ac i sicrhau bod CDC yn parhau i ganolbwyntio ar ei nod cyffredinol o weithio ar draws y sector hwn.

3.2 Mae CDC yn ei chael hi'n anodd recriwtio gwirfoddolwyr i gyflawni DPA 2 (Gwirfoddolwyr yn darparu cymorth i ddinasyddion), ac mae effaith hirdymor y pandemig ar arferion gwirfoddoli pobl yn fwy cyffredinol yn awgrymu y gallai fod gwerth mewn lleihau'r targedau hyn dros flynyddoedd 5 a 6 y rhaglen.

3.3 Er bod cynnydd da yn cael ei wneud i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod yn strategol a'i ymgorffori ym mhrosesau cyflawni sefydliadau (DPA 3), mae'r her barhaus o ymgysylltu â sefydliadau yn y sector preifat yn parhau. Credwn y byddai'n fuddiol i CDC lunio cynllun gweithredu clir ar gyfer sut y bydd y DPA hwn yn cael ei gyflawni, gan gyfeirio at ganfyddiadau'r gwaith ymchwil diweddar a wnaed, a nodi sut y bydd sefydliadau'r sector preifat yn cael eu hadnabod a'u recriwtio. Dylai'r cynllun gweithredu nodi sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei ariannu a'i gydlynu'n briodol o fewn y rhaglen e.e. hyrwyddwr sector preifat penodedig, a goblygiadau, os o gwbl, dargyfeirio adnoddau i'r dasg hon i elfennau eraill o'r rhaglen. Dylai adroddiadau chwarterol ddarparu diweddariadau penodol ar y cynllun gweithredu ar gyfer sefydliadau'r sector preifat, er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro'r cynnydd.

3.4 Mae CDC hefyd yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn pedwar canlyniad y rhaglen, ac mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy arolygon adborth y cyfranogwyr yn awgrymu bod mwyafrif llethol y rhai sy'n ymgysylltu â CDC yn adrodd am ganlyniadau gwell o ganlyniad i'r ymyriad.

3.5 Mae adborth gan sefydliadau a gymerodd ran yn yr arolwg ychydig yn fwy cymysg ac yn cael ei adrodd yn llai cyson mewn adroddiadau chwarterol,

ond rydym yn derbyn y bydd metrigau o'r natur hyn ond yn cynnig cipolwg cyfyngedig ar y gwahaniaeth a wneir gan y rhaglen i'r sefydliadau a gefnogir. Byddai'n werth casglu data arolwg mwy cyson ar ganlyniadau gan sefydliadau a gefnogir ar gyfer y cyfnod cyflawni sy'n weddill, a chysoni hyn yn well â chanlyniadau 3 a 4 y rhaglen. Awgrymwn y dylai adroddiadau chwarterol (a) ddefnyddio data ar gyfer yr un cwestiynau o'r arolwg o sefydliadau bob tro; a (b) bod y data hyn, yn ogystal ag unrhyw dystiolaeth arall, yn cael eu cyflwyno mewn modd tebyg i Dabl 2.6, yn unol â phedwar canlyniad y rhaglen.